**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r cyfarwyddyd)*

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cyfarwyddo Cyngor Caerdydd i gyflawni'r gweithgareddau penodedig a restrir yn yr Atodlen erbyn y terfynau amser a bennir, mewn perthynas â'i ddyletswyddau mewn cysylltiad ag Ansawdd Aer o dan Ran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac fel rhan o gynllun 2017 y DU i ymdrin â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd. O dan adran 85(7) o'r Ddeddf honno mae dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwn oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

# DEDDF YR AMGYLCHEDD 1995

## Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Cydymffurfedd Nitrogen Deuocsid) 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 85(5) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**), yn rhoi'r cyfarwyddyd a ganlyn.

Yn unol ag adran 85(6) caiff copi o'r cyfarwyddyd hwn ei gyhoeddi yn y London Gazette.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y cyfarwyddyd hwn ar ôl penderfynu ei fod yn angenrheidiol er mwyn bodloni rhwymedigaethau a osodir ar y Deyrnas Unedig o dan Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchynol yr UE(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.—**(1) Enw'r cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Cydymffurfedd Nitrogen Deuocsid) 2019.

(2) Daw'r cyfarwyddyd hwn i rym ar 01 Awst 2019.

(3) Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gymwys i Gyngor Caerdydd.

**Dehongli**

**2.** Yn y cyfarwyddyd hwn—

ystyr "awdurdod penodedig" yw Cyngor Caerdydd;

ystyr "gweithgareddau penodedig" yw'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr Atodlen.

**Gofyniad i gymryd camau penodol**

**3.** Rhaid i'r awdurdod penodedig gwblhau'r gweithgareddau penodedig erbyn y dyddiadau a bennir yn yr Atodlen.

*Lesley Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dyddiad 31 Gorffennaf 2019



(**1**) 1995 p. 25. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 85(5) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 2008/50/EC OJ Rhif L 152. 11.06.08. t.1.

# ATODLEN

Erthyglau 2 a 3

## Gweithgareddau Penodedig

| *Gweithgaredd* | *Disgrifiad o'r gweithgaredd* | *Terfynau amser* |
|---|---|---|
| **Dylid parhau i fodelu opsiwn Parth Aer Glân** | Sail resymegol gliriach dros y cwmpas daearyddol a'r dosbarthiad cerbydau a aseswyd. Sail resymegol gliriach dros ddewis y Parth Aer Glân tybiedig, a chyfiawnhad cliriach dros ei wrthod. | **Cyn gynted â phosibl ac erbyn 31 Hydref 2019 fan bellaf.** |
| **Ailddrafftio'r cynllun terfynol i ddisgrifio'n well y ffordd y datblygodd yr asesiad a arweiniodd at nodi'r opsiwn a ffefrir, a'r achos dros hyn.** | Rhoi manylion ychwanegol yn y cynllun terfynol er mwyn cynnwys disgrifiad cliriach o ddatblygiad yr achos dros yr opsiwn a ffefrir a chyfiawnhad dros hyn. Dangos hefyd pam y mae unrhyw fesurau ategol yn hanfodol i sicrhau cydymffurfedd â'r gwerth terfyn ar hyd y darn o ffordd. | **Cyn gynted â phosibl ac erbyn 31 Hydref 2019 fan bellaf.** |